## GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A483 A'R A458 (Y TRALLWNG, POWYS) (DILEU CYFYNGIADAU) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 82(2) a 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd dileu cyfyngiadau er mwyn adfer y terfyn cyflymder cenedlaethol ar y darnau o gefnffyrdd yr A483 a'r A458 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 27 Chwefror 2026 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell y Trallwng, Y Lanfa, The Canal Wharf, Y Trallwng, Powys SY21 7AQ. Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2353079.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod erbyn 20 Mawrth 2026.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen inni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, caniateir inni drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi inni a'ch data personol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd partïon, dylech ddatgan hyn wrth gyflwyno eich gohebiaeth a bydd Llywodraeth Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd partïon priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

## THE A483 & A458 TRUNK ROADS (WELSHPOOL, POWYS) (DERESTRICTION) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 82(2) and 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to derestrict to the national speed limit the lengths of the A483 and A458 trunk roads specified in the Schedule to this Notice.

During a period of 21 days from 27 February 2026, a copy of the proposed Order, plan and the Statement of Reasons for making the Order may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Welshpool Library, Y Lanfa/The Wharf, The Canal Wharf, Welshpool, Powys SY21 7AQ. The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained, free of charge, by e-mailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ, quoting reference number qA2353079.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to the Orders Branch at the above address by 20 March 2026.

Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the consultation process, we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence and the Welsh Government will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed. If there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**P HUISH**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o bwynt 168 o fetrau i'r de-orllewin o ymyl gogledd-ddwyreiniol yr ynys hollti ar ochr dde-orllewinol Cylchfan Sarn-y-bryn-caled, y Trallwng hyd at bwynt 166 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ymyl de-orllewinol yr ynys hollti ar ochr ogledd-ddwyreiniol y gylchfan honno.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Sarn-y-bryn-caled yr A483/A458, y Trallwng.

Y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn i'r gogledd am bellter o 199 o fetrau o ymyl deheuol yr ynys hollti ar ochr ogleddol Cylchfan Sarn-y-bryn-caled, y Trallwng.

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o bwynt 93 o fetrau i'r de o ymyl gogleddol yr ynys hollti ar ochr ddeheuol Cylchfan Buttington Cross, i'r gogledd o'r Trallwng hyd at bwynt 86 o fetrau i'r gogledd o ymyl deheuol yr ynys hollti ar ochr ogleddol y gylchfan honno.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Buttington Cross yr A483, i'r gogledd o'r Trallwng.

Y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o ymyl dwyreiniol yr ynys hollti ar ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Buttington Cross, i'r gogledd o'r Trallwng am bellter o 40 metr.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**P HUISH**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE**

The length of the A483 trunk road that extends from a point 168 metres south-west of the north-eastern edge of the splitter island on the south-western side of Sarn-y-bryn-caled Roundabout, Welshpool to a point 166 metres north-east of the south-western edge of the splitter island on the north-eastern side of that roundabout.

The circulatory carriageway of the A483/A458 Sarn-y-bryn-caled Roundabout, Welshpool.

The length of the A458 trunk road that extends north for a distance of 199 metres from the southern edge of the splitter island on the northern side of Sarn-y-bryn-caled Roundabout, Welshpool.

The length of the A483 trunk road that extends from a point 93 metres south of the northern edge of the splitter island on the southern side of Buttington Cross Roundabout, north of Welshpool to a point 86 metres north of the southern edge of the splitter island on the northern side of that roundabout.

The circulatory carriageway of the A483 Buttington Cross Roundabout, north of Welshpool.

The length of the A458 trunk road that extends from the eastern edge of the splitter island on the north-eastern side of Buttington Cross Roundabout, north of Welshpool for a distance of 40 metres.